Sacks
Jr. Se

Cyfres Llanbedr | Ionawr, 1930. | Cyf. 30. Rhif 1.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Darlun—Capel Panteg.
Rhestr o Weinidogion Panteg.
"Y Ffordd yr edrychaf ar bethau."
"Cuwch Cwd a Ffetan."
Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.
Priodas.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd ach rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasq Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. **Danfonir** 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. IONAWR, 1930. CYF. XXX. RHIF I.



CAPEL PANTEG, SIR GAERFYRDDIN.

Rhestr o Weinidogion Undodaidd Panteg.

CODWYD 1764.

William Thomas (urddwyd 1796) 1799—1801.

(Dim cronicl hyd y gwn i) 1801—1807.

Benjamin Evans (1807—1847 (" deugain mlynedd.")

David Lloyd a myfyrwyr 1847—1859.

Titus Evans a myfyrwyr 1859—1861.

Wm. B. Hughes 1861—1868.

William Marles Thomas a myfyrwyr 1868—1871.

Walter Jenkins 1871—1873.

William Marles Thomas 1873—1875.

Wm. E. Davies 1875—1879.

Jenkin Williams 1879—1892.

Supplies fel y gellir 1892————.

Hanes Capeli'r Enwad.

I.—CAPEL PANTEG, SIR GAERFYRDDIN.

YM mhlwyf Cilrhedyn, rhyw bedair milltir o Gastellnewydd yn Emlyn saif Capel bychan Pantêg. Nid oes dim yn neilltuol yn ei olwg—rhyw hanner ymguddio y mae oddiwrth y byd ond y mae mewn dyffryn prydferth. Darllenais Bedair Cainc y Mabinogi droion gan geisio dychmygu Pwyll Pendefig Dyfed yn mynd i hela a dyma fel y'i rhoir yn Llyfr Gwyn Rhydderch,—" A thrannoeth yn ieuengtit y dyd(d) kyvodi a oruc a dyvot y lynn Cuch i ellwng e gwn dan y coet."

Am a wn i o edrych ar y fan yn " ieuenctid y dydd "—gyda'r bore bach y codwyd Capel Pantêg yng Nglyn Cuch ac fe erys " Glyn Cuch " a " Rhuddlan Teifi " fel darnau o 'slawer dydd. Y maent yn anfarwol am eu bod wedi'u gosod yn y Pedair Cainc—un o ddarnau prydferthaf llenyddiaeth y Cymro a fydd byw byth.

Nid oes nemor ddiddordeb hwyrach yn hanes Pantêg heddiw. Ond fe saif dros gyfnod cythryblus yn y fro pan rwygid Enwad y Bedyddwyr a theimlid dylanwad Dr. Richards o Lynn. Awgryma Dr. Thomas Richards yn Nhrafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr 1928 td. 118, " Iechyd o beth yw deall fod rhywun yn rhywle yn ymddiddori yng Nghymanfa 1799 a'r cynnwrf a ddilynodd ; iechyd mwy fyddai * * myned at wreiddiau'r gynnen a'r cnwd chwedleuon ar yr wyneb—cael allan pa un a'i celwydd oedd y cwbl a ddywedai William Richards yn ei *Bapurau Achlysurol* am bobl y Gymanfa (am y brad, y diarddel, y Chwart mawr, am y daioni i dai tafarnau) * * *. Y mae'n hen bryd i rywun * * * roddi llun da o William Richards."

Cyn esbonio un bennod yn hanes crefydd Cymru fe fydd raid gwneud hynyna a diddorol dros ben fydd cael esboniad ar un enw a geir yn rhestr aelodau cyntaf Cymdeithas Dwyf-Undodiaid Deheubarth Cymru a " ymgorffolodd yn eu cyfarfod gerllaw Castellnedd ar ddydd Gwener yr 8fed, Hydref 1802." (Gweler " Rheoleu a Threfniadau Cymdeithas Dwyf-Undodiaid yn Neheubarth Cymru yr hon a ymgorpholodd yn y flwyddyn 1802 * * * Llundain, Biggs a Chottle, 1803.") Ni cheir ond naw enw a deugain ar y rhestr ac yn eu plith ceir enw,—

" Rev. William Richards, Lyn Regis."

Nid rhyw *whim* unnos mohoni gan Richards oherwydd y mae rhestr o aelodau'r Gymdeithas am 1805 o'm blaen. Y mae wedi chwyddo i Saith ugain o enwau ac fe erys enw'r Parch. William

Richards, Lynn Regis arni. Nid yw hynyna ond gyda llaw. Y mae'n werth cofio fod y Bedyddwyr Cyffredinol wedi'u sefydlu gan Hugh Evans o Lanhir ym Maesyfed a Dyffryn Gwy yn nyddiau'r Rhyfel Cartrefol. Dywed Dr. T. Richards "Parlyswyd grym ei gyfundeb (Vavasour Powell) fel Bedyddwyr gan amwysedd ac eangfrydedd arwynebol is-adran 3 yn erthygl Bedydd ei Gyffes Ffydd. Dyma eiriau'r *Sub-section* yn Gymraeg, 'Eithr yn yr ordinhad o fedydd, fel mewn llawer o bethau eraill, gall gwahaniaeth barn ac ymarferiad gydredeg o'r goreu a chariad brawdol a Chymundeb Cristionogol.' Ac onibai fod William Jones a Griffith Howells wedi derbyn gras ataliol a chyngor y ddau gennad o'r dwyrain, a gadael allan yr is-adran hon wrth fabwysiadu Cyffes Ffydd Powell yn Rhydwilym, buasai gorllewinbarth Cymru, yn ddilys ddiameu wedi ei golli i'r Bedyddwyr Neilltuol."

Yr oedd Eglwys Rhydwilym a'i changhennau yng Nglandŵr, Castellnewydd a Ffynnonhenri yn perthyn i'r Bedyddwyr Neilltuol fel yr oll (hyd y gwn i) o Eglwysi y Bedyddwyr Cymraeg heddiw ond tua chanol y ddeunawfed ganrif fe deimlid y dylanwad Arminaidd yn llawer o Eglwysi y Bedyddwyr a chofir am Abel Francis yn gadael y weinidogaeth yn Eglwys Dyffryn Teifi gan ymuno a'r eglwys yn Llwynrhydowen ac am ddiarddel Charles Winter yn eglwys Hengoed yn 1749.

Fe welir y gwahaniaeth rhwng y Bedyddwyr Cyffredinol a'r Bedyddwyr Neilltuol ond cofio fod yn y term Bedyddwyr Cyffredinol awgrym fod posibilrwydd prynedigaeth nid wedi ei gyfyngu i bersonau neilltuol ond yn agored yn gyffredinol i'r holl bobl. Dywed Skeats fod "Cyffes Ffydd yr Eglwys Fedyddiedig tua 1609 (Cyffes Ffydd Eglwys John Smith the Se Baptist) yn wrth-Galfinaidd. Yr oedd yn Arminaidd ar y Pechod Gwreiddiol, Rhagarfaeth ac Ewyllys Rydd."

Y mae hynyna i gyd yn bwysig wrth geisio deall y ddadl yn Eglwys Panteg tua chanol y ddeunawfed ganrif. Hyd y medraf i gasglu y mae'n weddol sicr fod straen Arminaidd yn Eglwys y Bedyddwyr yn Nyffryn Teifi. Nid oes raid ond darllain Llythyron y Gymanfa er gweld. Ni wn i ar ba sail y'i dywedir ond ar dudalennau 198—201 o lyfr y "Tri Brawd o Llanbrynmair a Conwy" fe geir awgrym diddorol er dangos y lefain yn y blawd. "Yr oedd Eglwys y Bedyddwyr, Castellnewydd Emlyn, o dan addysg A. Francis a D. Rees, Ysgolfeistr (tybed nad Rees David a ddylasai fod) dau o hen ddisgyblion T. Perrot, yn ferw ac aeth allan ohoni nifer o Arminiaid, ac adeiladasant Pantêg gerllaw Capel Iwan."

Ni chredaf fod yr hanes mor glir a hynyna, ond sicr fod a fynno Abel Francis a Rees David a pharatoi'r ffordd. Cangen o Eglwys Rhydwilym y cyfrifid Glandŵr, wedi hynny yn Nhy-dan-yr-allt heb fod nepell oddiwrth Eglwys St. John, Llandysul, ond

oherwydd fod eglwys Llwynrhydowen yn ennill nerth clafychodd yr achos yn Nhy-dan-yr-allt a phregethwyd yn amlach ger pont Llandysul. Yr oedd Abel Francis a Rees David wedi corddi Eglwys y Bedyddwyr yn Nyffryn Teifi gymaint fel y cafwyd yn Llandysul gyrddau mawr a phregethwyd gan bump o bregethwyr ar bum pwnc Calfin. Er y pregethu ni ddiffoddwyd yr heresi ond y mae'n sicr fod y Bedyddwyr yn cynhyddu yn ardal Castellnewydd a'r Pantêg. Yn Jones Hanes y Bedyddwyr ceir hanes codi Capel Pantêg—hanes gwahanol ag a roddwyd eisoes. Hyd y medraf i weld nid oedd Pantêg ond un o'r mannau cyfarfod ac ar faen yn y mur ceir

"Pantteg. Built in the year 1764."

Ar y 25 o Ebrill 1775 aeth o gylch hanner cant o aelodau ieuainc ymaith. "Yr oeddynt oll hefyd yn cytuno yn y cyffredin mewn barn, o ran athrawiaeth a rhodiad, a'r gwahaniaeth mwyaf oedd mewn tymheredd, y dull a'r ffordd o ganu, gweddio, etc." "Wedi i'r bobl ieuainc * * adeiladu Capel newydd y Graig, yn Nghastellnewydd, rhoddodd yr hen bobl bob yn ychydig i fyny pregethu yn eu hen dŷ annedd yn y dref a chasglasant at eu gilydd i'r Pantêg."

Yn 1776 yr oedd y Gymanfa ym Mhantêg. Ni fuasai'r Gymanfa yma a Phantêg yn Eglwys Arminaidd yr adeg hon. Hyd y gwyddom yr oedd popeth yn heddychol yma dan farw'r Parch. David Thomas 1784 a cholli'r Parch. James Thomas drwy angau bedair blynedd yn ddiweddarach. Am ryw wyth mlynedd bu Pantêg heb weinidog "ond yr oedd yma gynorthwywyr da, megys Meistriaid John Davies o'r Gilfach, Manordeifi; Griffith Jones a James Davies yn awr o Rhydargaeau." Fe gofir i James Davies ei hun adael Eglwys Ffynnonhenry yn 1799 neu 1800 gan arwain eglwys Rhydargaeau gydag ef at y Bedyddwyr Cyffredinol ond edifarhaodd yn 1820 gan arwain ei gynulleidfa gydag ef yn ol at y Bedyddwyr Neilltuol.

Tua 1795 bedyddiwyd William Thomas yn Llanfynydd ac ordeiniwyd ef yn gyd-weinidog a Griffith Jones ym Mhantêg yn 1796. "Oddeutu dwy flynedd cyn hyn, rhannodd yr eglwys mewn cariad yn dair, am eu bod mor wasgaredig, ac heb weinidogion sefydlog, sef Pantêg, Penybont a'r Drefach."

Nid oedd dim yn eithriadol ym Mhantêg namyn rhyw eglwys arall tan 1799, yn fuan wedi cymanfa Salem, pan ymrannodd neu yn hytrach rhwygodd yr eglwys yn Arminiaid a Chalfiniaid gyda William Thomas yn ochri gyda'r Arminiaid a Griffith Jones gyda'r Calfiniaid.

Fe roir yn Hanes y Bedyddwyr td. 399 y rheswm pam y daeth Pantêg i feddiant yr Undodiaid. "Cafodd William Thomas feddiant o'r capel, am fod Mr. Richard Thomas yr unig ymddiriedydd (trustee) ag oedd yn fyw yn perthyn iddynt hwy; ond y mae'n debyg iddo edifarhau."

Y mae'n dda gwybod iddo gael edifeirwch. Beth bynnag am hyn ymneilltuodd y blaid Galfinaidd gan adael Pantêg ym meddiant yr Arminiaid. Yn 1811 gwnaeth Mr. Lyons ei daith genhadol drwy Gymru a dyma ddywed,—"July 8, *Panteg*. Mr. Evans, the minister of the Congregation at this place is a farmer. He was formerly a Calvinistic Baptist * * * Though he endured much opposition from some of his connections when it was known that he had embraced his present sentiment ("he had renounced his trinitarian opinions") and a division took place in the congregation, he has now the happiness of seeing the people to whom he preaches established in Unitarian principles and zealous for their promotion."

Yn 1816 gwnaeth Mr. Wright yntau daith genhadol a gellir teimlo nad oedd y gobeithion yn Sir Gaerfyrddin wedi eu sylweddoli,—

"I. Pantêg. In this village there is a Congregation of Unitarian Baptists. Mr. B. Evans is their minister."

Gyda threigl amser heb weinidog sefydlog, heb fedru sugno nerth newydd wedi i'r ysgogiad cyntaf fynd fel ton ar wyneb y dŵr, rhyw ddiflasu ar y daith a wnaeth. Ni fedrir disgwyl mewn ardal wledig rhyw broselytio—ac fel yr oedd yr hên warriors yn cwympo o un i un a'r disgynyddion heb deimlo nemor wahaniaeth rhwng egwyddorion Pantêg ac eglwysi'r cylch hwyrach, ni ellid disgwyl cynnydd ychwaith. Y mae'r hên ffermydd a'r hên fythynnod yn mynd yn wâg a phobl o enwadau eraill yn dod i'w llanw am eu bod yn medru tynnu o gylch lletach ac eangach na ni o lawer iawn.

Dyna hanes Pantêg a llawer Capel gwledig arall; ond y mae'r gannwyll wan yng nghynn a phwy ŵyr na fu dylanwad Pantêg yn foddion i ddynoli llawer ar ddiwinyddiaeth annynol y ddeunawfed ganrif.

Saif yng Nglyn Cuch yr hên fabinogi a gobeithio fod hanes Pantêg wedi'i wau i fabinogi Duw ac yn rhamantau Crefydd yr hên fro brydferth tros fyth.

O.

"*Y Ffordd yr Edrychaf ar Bethau.*"

ENW adnabyddus trwy Gymru benbaladr, bellach, ydyw enw'r Parch. T. Nefyn Williams. Gwybyddus i bawb hefyd, ydyw'r amgylchiadau a'i dug i sylw mor gyffredinol —i bawb, o leiaf, a deimla rhyw fesur o ddiddordeb mewn crefydd a phynciau crefydd. Gweinidog gyda'r Methodistiaid a fu, ac aelod—nid gweinidog, bellach, fel y deallaf—gyda'r un enwad eto. Diarddelwyd ef o fod yn weinidog ar gyfrif y ffaith bod ei olygiadau

diwinyddol, fel yr honnai awdurdodau'r enwad, yn anghyson â'r "Gyffes Ffydd"; yn wir, yn wyrdroad llwyr o honi. Y mae hawl gan y Methodistiaid, fel pob enwad, i osod i fyny amodau derbyniad i'w gweinidogaeth, a diarddel, os tybiant hynny'n angenrheidiol, y sawl a'u trosedda neu a fetha â rhoddi ufudd-dod a chydsyniad llwyr iddynt. Ac y mae gan y gweinidog a ddiarddelir, ar y tu arall, o thybia ymddygiad ei enwad yn annheg ac anghyfiawn, i ddadleu ei achos, gan wrthwynebu diarddeliad, a glynu, hyd y medr, wrth ei hen gysylltiadau. Pe bai mater enwadol yn unig a fyddai'r ddadl rhwng y Methodistiaid a Mr. Williams, nid doeth a fyddai i mi nac i neb arall i ymyrru; yn hytrach, rhwydd gydnabyddaf mai annoeth i'r eithaf a fyddai gwneuthur hynny.

Y mae'r ddadl, pa fodd bynnag, wedi ennill cyhoeddusrwydd mor eang, fel y mae wedi peidio â bod yn fater enwad, ac wedi dod yn fater cenedl gyfan. Am fisoedd ,ynghwrs y flwyddyn y sydd ar derfynu (1929), a chyn hynny am ryw gymaint o amser, dyna beth a glywid ymha le bynnag y gwelid deuddyn neu nifer o ddynion mewn ymgom, sef, y Parch. T. Nefyn Williams a'i syniadau. Dwrdiai rhai ef yn erwin, eraill a'i hamddiffynai'n aiddgar; hyrddiai rhai bobmath ar eiriau câs tuag ato, eraill a'i daliai i fyny fel proffwyd a gafodd weledigaethau newydd; daragonai rhai bobmath ar ganlyniadau dinystriol i grefydd Cymru oherwydd a wnaed ganddo, eraill a'i clodforai fel at-genhedlwr crefydd Cymru mewn adeg pan nodweddir hi gan fesur mawr iawn o farweidd-dra.

Trwy ei bregethu a'i ddarlithio, yn enwedig trwy ei bamffledyn a ddwg y teitl "Y ffordd yr edrychaf ar bethau," gwnaeth Mr. Williams ei ran i chwythu'r goelcerth a gynheuwyd ganddo. Yn y fel hyn, y mae Mr. Williams a'i genadwri newydd—nid mor newydd hefyd, o ran hynny—wedi croesi ffiniau enwad, a dod yn berson cyhoedd yn ystyr eangaf y gair, â chenadwri bwysig ganddo i'w genedl. Ac ni raid imi, felly, wrth unmath ar ymddiheuriad oblegid gosod o honof ar bapur rai sylwadau parthed cynnwys y llyfryn y cyfeiriwyd ato eisioes.

Cyn mynd ymhellach, er rhoddi i'r darllenydd ryw syniad am eangder y maes yr ymgymer yr awdur a thraethu ei farn arno, nid allan o le a fydd imi roddi crynhodeb o'i gynnwys; ac ni allaf wneuthur hynny'n well na thrwy enwi'r penawdau un ar ol y llall fel y'u ceir yn y llyfryn. Dyma hwy: "cyfarchiad neu ragarweiniad"; "fy rheswm dros angori fy ffydd wrth Dduw"; "y ffordd yr edrychaf ar Dduw"; "y ffordd y meddyliaf am berthynas Duw a'r byd"; "y ffordd yr edrychaf ar ymgnawdoliad Duw"; "y ffordd y meddyliaf am berthynas Duw a Christ"; "y ffordd yr edrychaf ar Grist fel datguddiad"; "y ffordd y meddyliaf am Grist fel arweinydd ac achubydd, a'r ffordd y syniaf am ei arbenigrwydd"; "y ffordd y meddyliaf am wyrthiau y Crist"; y ffordd yr edrychaf ar groeshoeliad y Crist"; "y ffordd y meddyliaf am

yr atgyfodiad " ; " y ffordd y meddyliaf am anfarwoldeb " ; y ffordd yr edrychaf ar yr Eiriolaeth " ; " y ffordd yr edrychaf ar ddefnyddio enw'r Iesu wrth weddio " ; y ffordd yr edrychaf ar y bedydd " ; y ffordd yr edrychaf ar y Cymun " ; " y ffordd yr edrychaf ar Weddi ;" " y ffordd yr edrychaf ar y Beibl " ; y ffordd y meddyliaf am yr Eglwys " ; " Moddion gras " ; " y Cyfarfod Gweddi a'r Seiat " ; " y nôd y gweithiaf tuag ato, a'r ffordd y meddyliaf am dreulio'r Saboth " ; y ffordd o ddelio â'r plant ar fore y Saboth a'r nos " ; " yr Ysgol Sul " ; " y Seiat ar derfyn oedfa hwyrol y Saboth " ; " derbyniad i aelodaeth eglwysig " ; " disgyblaeth Eglwysig " ; " ffordd yr eglwysi o ddewis pregethwr at y Sabothau " ; " diweddglo."

Maes eang iawn yw hwn—rhy eang, fe ellid tybied, i neb fedru gwneuthur cyfiawnder ag ef tu fewn i derfynau pamffledyn o tua phedwar ugain o ddalennau ; eithr y mae'r ymdriniaeth o bobun o'r materion y cyffyrddir â hwynt, er yn fyr, fel na all lai na bod, yn foddhaol, rhyfeddol o gynhwysfawr, ac eglured fel na raid i un darllenydd deallgar fod mewn un amheuaeth parthed safle'r awdur. Yn y llith a ganlyn, ac un arall efallai, bwriadaf wneuthur ychydig sylwadau ar gynnwys y llyfryn, nid mewn ysbryd anfrawdol a gor-feirniadol, eithr mewn ysbryd teg, awyddus i roddi i'r darllenydd syniad cyn glired a llawned ag y medraf tu fewn i gwmpas byr o'r ffordd yr edrych yr awdur ar bethau.

Y mater cyntaf y cyffyrddir ag ef ydyw—Duw. O sylwi ar y crynhodeb o gynnwys y llyfryn a roddwyd uchod, gwel y darllenydd y rhoddir rhyw bum pennod i'r ymdriniaeth o wahanol agweddau'r bod o Dduw. Boddhaol iawn, ac enaid-adnewyddol, yw'r ymdriniaeth ; yn wir, nid yn hawdd, tu fewn i gwmpas mor fyr, y gellir rhagori arni. Ac wrth symud o honof ymlaen yng nghwmni a than arweiniad yr awdur tros un ris ar ol y llall o'r ymresymiad, dim ond cydsynio a fedraf wneuthur.

Nid wyf am feichio'r llith â gormod o ddyfyniadau ; yn wir, peth anodd yw dyfynnu gan mor gryno yw'r ymresymiad ; eithr ni fedraf ymatal rhag dyfynnu a ganlyn : " Wedi angori ohonof fy mywyd wrth y gred yn Nuw, ni welaf le yn nhrefn pethau i lawer o dduwiau . . . . ar ol ffeindio unoliaeth bywyd dyfnaf y byd mewn syniad am un Duw, ni allaf werthu'r unoliaeth, a rhannu'r Dwyfol yn dri. A'm cyffes yn y fan yma ydyw hyn—credaf mewn un Duw, a chredaf fod Duw yn un . . . . wrth synio am dri pherson yn Nuw. Fe aberthir gwir unoliaeth y Dwyfol, a chynnil awgrymir tridduwiaeth. Troi yn dridduwiaeth y mae'r gred mewn tri pherson ar waethaf dyn . . . . wrth synio am dri pherson yn Nuw, gwthiwn i'w fywyd dair personoliaeth. Crewn yn Nuw dri chymeriad neilltuol, a thair bodolaeth unigol . . . . ac ar ein gwaethaf aiff yr un Duw yn dri . . . . ac er ein holl ymffrost mewn undduwiaeth, tri duw a addolir gennym. Am hynny y taflaf dros y bwrdd

y meddwl am dri pherson yn Nuw . . . . yn lle trindod o bersonau, gwelaf yn Nuw drindod o agweddau. Yn lle tri pherson, gwelaf yn ei fywyd dair elfen dragwyddol—daioni, gwirionedd, a phrydferthwch santeiddrwydd."

I'r uchod y dywedaf—Amen. I Undodiaid nid oes dim yn newydd nac yn ddieithr yn y meddyliau hyn. Os bu un pwnc y darfu i Undodiaid ei bwysleisio'n fwy arbennig nag un pwnc arall, undod di-ranedig y Duwdod a fu hwnnw. Ni raid i'r darllenydd ond troi'i olwg yn ol tros ddalennau'r hen YMOFYNYDDION cyn gweld o hono mor wir yw hyn. Am wneuthur o honynt hyn cawsant eu herlid a'u camliwio ymhob dull a modd. Arloeswyr ffordd oeddynt—ffordd a arweiniai'n raddol at well a chywirach meddyliau am Dduw. Ar y pen hwn, diddorol iawn ydyw tystiolaeth y diweddar Barch. T. Rees, Prifathro Coleg yr Annibynwyr ym Mangor: "Nad faint oedd diffygion diwinyddiaeth yr Undodiaid, cadwasant o flaen meddwl y wlad rai gwirioneddau yr oedd perigl colli golwg arnynt. Daliasant ogoniant un Duw gyferbyn ag aml dduwiaeth y Babaeth: ei Dadoldeb gariadus a rhesymol gyferbyn ag un-bennaeth ddiamodol uchel-galfiniaeth . . . . o safbwynt iachawdwriaeth, y mae mor angenrheidiol credu yn nynoliaeth wir a chyflawn Crist ag yn ei ddwyfoldeb. Am hynny, gwrthodasant athrawiaeth y Drindod, a'r ymgnawdoliad, fel y ffurfiwyd hwy yng Nghredo Athanasius." Un sylw a wnaf ar y dyfyniad uchod, sef, mai esboniadau neilltuol o'r Ymgnawdoliad a wrthodwyd gan yr Undodiaid ac nid y ffaith o Ymgnawdoliad.

Dywedir bod arall-ffyddiaeth un oes yn tueddu i ddod yn iawnffyddiaeth oes arall. Rhyw arall-ffyddiaeth, gydag aml i awgrymiad o rywbeth gwaeth mwy peryglus, yr ystyrrid Undodiaeth yn y dyddiau a fu. Ydyw'n bosibl y daw Undodiaeth a saif dros undod di-ranedig Duw, rywbryd, yn iawnffyddiaeth—ffydd y mwyafrif; oblegid dyna'r ystyr gyffredin a roddir i'r gair iawnffyddiaeth—nid *iawn*-ffyddiaeth, eithr ffydd y mwyafrif; y duedd ydyw barnu iawnder diwinyddiaeth yn ol y nifer a'i proffesa.

Un sylw a wnaf yn y cysylltiad hwn a ymyla ar fod yn feirniadaeth ar y dyfyniad a roddwyd eisioes, sef, paham y cyfyngir agweddau bywyd Duw i dair? Paham dim ond tair elfen?

Ymddengys sylwadau pellach yn y nesaf—os caniata'r Golygydd.

D.E.

"*Cuwch Cwd a Ffetan.*"

RHYW filltir allan ar y briffordd o Lan Wyre saif dau fwthyn gwyngalchog yn gwmni i'w gilydd. A'u barnu wrth yr olwg allanol yn yr haf, ceir fod gwahaniaeth rhyngddynt. Eithr pan ddaw'r gaeaf newidir yr un mor llwyd ei wedd a'r llall.

Dydd Nadolig yw hwn heddiw.

Nid oes flodau wrth ddrws y ty i ddangos chwaeth Ifan Thomas. Anniben hefyd yw'r ardd er cystal a fu ei chynnyrch, fisoedd yn ol.

Diaddurn fel arfer yw cartref ei gymydoges. Trwy drugaredd, ciliodd y chwyn o'i gardd hithau erbyn hyn. Treuliwyd nerth Nansi yn nhreigliad y blynyddoedd gan ei gadael yn llwm ei byd, weithian..

Onid calon garedig a luniodd mai yn Rhagfyr y dethlir Nadolig yn ein gwlad ni ?

Garddwr ym mhlas Llwyn Iarll oedd Ifan Thomas. Digon gwir mai prin oedd ei enillion, ond bu ei wraig, Elin, yn ddarbodus wrth drefnu'r adnoddau. Profodd Nansi o'u haelioni gan mai cyfyng oedd ei hamgylchiadau hi.

Tua hanner dydd, heddiw, cyrhaeddodd yr hen wreigan, megys cynt, i fwynhau'r ginio tan gronglwyd Ifan Tomos. Bu Elin wrthi'n brysur ers oriau yn paratoi'r pryd yn ol ei chwaeth gorau.

Ar fyr dychwelodd ei phriod yn fawr ei flys am flas y wledd. Ben borau, aeth ef allan gyda chyfeillion i saethu.

"Nadolig llawen i chi, Nansi fach," ebr ef.

"Yr un peth i chithe, Ifan."

"A shwt stumog sy da chi heddi, te, gwedwch ?"

"O, symol bach, wir."

"Trueni na fysech chi mas da ni ar rosydd Ffwrneithin. Mi fytech wedyn nes bo pleser ych gweld chi."

Am yr hanner awr nesaf bu'r geiriau'n brin wrth y bwrdd am fod y bwyd yn aml dan ddant. Toliwyd y newyddion mwyaf blasus gan awch y cwmni.

Ar ol bwyta gwala a gadael gweddill, dychwelodd Nansi i'w bwthyn. Wedi eistedd wrth wres y tân aeth i chwalu meddyliau, a chasglu atgofion. Neidiodd yn ol dros ddeng mlynedd ar ugain i fyw cyfnod diddorol. Y pryd hwnnw ceid Ifan yn gysur i'w serch, ac yn gefn i'w bywyd. Pleser prudd oedd iddi heddiw i adolygu'r gorffennol pell hwnnw. Dadebrodd gan gofio am ei chinio, a charedigrwydd Ifan ac Elin iddi. Ebr hi yn hyglyw—

"Bendith ar y ddau, weda i. Mi rown i'r byd am fod mor hapus ag Elin."

Erbyn dau o'r gloch, gorffennodd Elin olchi'r llestri a chymhennu'r lle tân. Ymwisgodd yn ei dillad dydd Sul. Aeth gydag Ifan i gyfeiriad y dref am dro. Yr oedd yn brynhawn sych, a naws rhew yn yr awyr.

Rhai ffyddlon i fro'u mebyd ar Nadolig yw plant Llan Wyrc. Ymlwybrant o bobman i fwynhau'r gwyliau ar yr hen aelwyd. Y pleser agosaf at ffas y ginio yw rhodianna yn y prynhawn. Yn y modd hwn, daw'r cyfle i adnewyddu'r hen gyfeillgarwch.

Ymhen deng munud gwelodd Elin ei chyfoed, Beti. Gwraig ydoedd hi i fasnachwr cyfrifol yn un o drefi amlwg Morgannwg. Canai cymydogaeth helaeth glodydd y nwyddau a geid yn siop Mr. J. T. Hughes, Tre'r Glo. Mewn canlyniad, bu gwenau ffawd ar ei lwybrau ef am flynyddoedd. Yn wr pump a deugain oed, casglodd gyfoeth enfawr, a dyrchafwyd ef i anrhydedd y trigolion.

Cydgerddodd Elin a Beti am hanner awr, a dilynnwyd hwy gan eu gwyr. Cafodd y ddwy eu prif bleser wrth ymdrin a mater diddorol.

"Odi chi'n cofio, Elin, am dana i'n gweyd yn groten y mynnwn i ddod ymlan yn y byd?"

"Wel, odw," meddai Elin. "Yn ol yr hanes, ma'ch proffwydoliaeth wedi dod i ben hefyd."

"Peth rhyfedd yw penderfyniad," meddai Beti. "All neb neud dim o werth hebddo. Mi wn i drw brofiad beth yw gwerth penderfyniad. Wyddoch chi fod gyda ni un o'r siopau mwyaf yn y De heddiw? Mae yco dros drugen, rhwng pawb, yn gwitho."

"Dros drugen," meddai Elin mewn syndod dwys. "Yr argol fawr!"

"Rywfodd ne'i gilydd, ma popeth yn troi'n arian dan y'n trwyne ni. Weles i ddim shwt beth erioed."

"Ma gyda chi dŷ helaeth, oes e, Beti?"

"Oes, a thair morwn fowr yn gofalu amdano fe. Trw lwc, rwy'n cael popeth all arian i brynu."

Dirwynodd yr amser i'r ddwy ganu'n iach a dychwelyd i gwmni eu gwyr. Tawedog iawn a fu Elin am ysbaid. Methai'n lan a choelio'r portread o fywyd llwyddiannus Beti. Na, nid rhamant oedd y cyfan. Clywodd ddigon cyn hyn gan craill yn dystion. Ar ol iddi gael gwared o'i syndod, bu Elin yn cofio am adeg na welid dim gwahaniaeth rhwng ei safle hi a Beti. Ganwyd a magwyd hwy mewn cartreti tebyg. Yn yr ysgol feunyddiol cydradd oeddynt yn eu dosbarth. Anturiodd Beti dros y nyth gyda phenderfyniad diysgog yn ei natur am ddyrchafiad.

Yn nhyb Elin, yr oedd bellach fyd o wahaniaeth rhyngddynt. Cronnwyd bywyd Beti a digonedd. Ar y llaw arall, sylweddolodd yn gryfach nag erioed mai cyffredin iawn oedd ei thynged hi. Gwasgodd y pwne yn drwm ar ei hysbryd nes iddi ddod yn y diwedd i ddyfarniad.

"Rhaid cyfadde," meddai hi yn ei chalon, "fod Beti'n lweus. Mi liciwn i fod mor hapus a hi."

* * *

Cerddodd Mr. a Mrs. J. T. Hughes ymlaen nes cyrraedd ty gwych, nepell o'r ffordd. Arwyddai popeth o'i gylch fod hapusrwydd hefyd y tu mewn. Ar y trothwy, safai gwraig drwsiadus. Un o gyfeillion mynwesol i fam Beti oedd Mrs. Morgan. Cyfarchwyd gwell a chafwyd ymgom.

"Ym mhwy ran o'r byd mae'r Capten nawr, Mrs. Morgan?"

"Trwy lwc," oedd yr ateb, "mae e wedi rhoi'r môr i fyny, ers blwyddyn."

"Rych chithe wrth fodd y'ch calon te, mi wela," meddai Beti.

"Odw, wir, gystal i fi gyfadde. Ma hi'n neis iawn i gal e gatre,—a cheiniog fach wrth gefen gyda ny."

"A shwt ma fe'n teimlo?" gofynnodd Mr. Hughes. "Oes peth whant mynd nol i'r môr arno fe?"

"Mi fuodd yn galed ar y dechre. Ond," meddai hi, gan gyfeirio bys at y tŷ, "erbyn hyn ma fe'n dawel yn yr 'Hafan'."

Ar y gair, ymddangosodd y Capten Morgan. Gwr cyhyrog, ac yn ei anterth ydoedd. Gellid yn hawdd ddarogan iddo flynyddoedd i fwynhau ei bentwr o gyfoeth. Cododd yntau, fel y mwyafrif o gapteniaid Llan Wyre, allan o ddinodedd. Dechreuodd ei yrfa ar long fechan, yr "Ellen Ann," a hwyliai ar draws traethau Cymru. Ar fyr dro, gwthiodd i'r dwfn. Trwy ei egnion dyfal medodd gynhaeaf melyn, melyn.

Yn wyneb hyn oll, adwaenid ef gan ei gyfoedion wrth yr hên enw —"Jac yr Ellen Ann."

Ceisiodd y Capten gan Mr. a Mrs. Hughes i ymuno a hwy am dro byr. Ond gwrthodasant er mwyn dychwelyd yn gynnar at gyfeillion eraill.

Wrth droi adref, bu llwyddiant y Capten Morgan dan sylw gan Beti a'i phriod. Ymhen tipyn, gofynnodd ef—

"Odi chi'n meddwl fod e'n hapus?"

"Tom," meddai hithau, yn bendant, "pam y'ch chi'n gofyn? Odi, wrth gwrs. Pam lai?"

"Meddwl w i, falle, fod y môr yn galw ar i galon e nol, weithie."

"Wel, fe wedodd Mrs. Morgan i fod e'n dawel nawr, beth bynnag, yn yr 'Hafan'."

"Falle, falle, wir," meddai yntau. "Ond, mi wn i un peth. Allwn i byth fwynhau bywyd yn awr ar wahan i'r siop."

"Pam hynny, te, Tom?"

"Wn i ddim, ond ma hi wedi rhoi rhaffe'n dyn amdana i,—a fedra i ddim dod yn rhydd yn gloi, gwlei."

"Yn ych gwir chi?" gofynnodd hi. "Ma da ni ddigon o arian i reteiro erbyn hyn, os bosib."

"Oes, Beti fach, hen ddigon i ni a'r ddou blentyn." Distawodd cyn ychwanegu'n dawel, "ond rwy'n meddwl weithie fod y siop yn fwy nag arian i fi. Odi chi ddim yn teimlo felna?"

"Falle mod i wir," ebai hithau'n ystyriol. "Ond gwyn fyd na fedrwn i adel y siop, dod lawr ffordd hyn i fyw, — a bod yn hapus fel Mrs. Morgan."

* * *

"Pwy mor bell yr awn ni?" gofynnodd Capten Morgan i'w wraig.

"Ddim ymhell. Gadewch inni fynd at glwyd y plas."

Erbyn hyn dechreuai'r haul wyro tua'r gorllewin, gan fwrw arwyddion am ychwaneg o rew. Cerddodd y ddau nes dod at borth llydan a arweiniai i bare Llwyn Iarll. Bu hwn ers cannifoedd yn gartref i un o deuluoedd mwyaf urddasol y wlad. Dywedid fod y perchennog presennol yn olrhain ei achau at un o hen dywysogion ein gwlad. Hawdd y gellid credu hyn hefyd ar gyfrif ei ymddygiad anrhydeddus ef, a'i dad a'i dadcu. Sonnid gan bawb yn yr ardal amdanynt gyda pharch amlwg.

Cyfrifid i'w wraig ddisgyn o linach uchel, a'i bod o waed coch y pendelig. Ni amheuodd neb hyn ychwaith, am y byddai hi bob amser yn barod ei chymwynas i dlodion a thrigolion methiedig y plwyf.

Mynnodd Mrs. Morgan gael un olwg ar y plas cyn troi'n ol. Hawdd oedd ei weled heddiw rhwng y cangau. Chwareuai'r pelydrau arno gan beri iddo wrido mewn gogoniant.

Torrwyd ar fyfyrdod y ddau. Dynesai Mrs. Lloyd yn y pellter, ac yn hamddenol. Cerddodd y Capten a'i wraig i ffwrdd. Wrth frysio'n ol i'r "Hafan" ychydig o siarad a fu nes i Mrs. Morgan gyhoeddi — "Ma nhw'n dweyd fod Mr. Lloyd wedi colli arian mowr yn ddiweddar."

"Gwaetha'r modd, dyna glywes inne yn y dre, ddoe."

"Er iddi nhw golli'r arian bydd un peth gwerthfawr yn aros wedyn John."

"Beth yw hwnnw?" gofynnai'r Capten.

"Wel, gwaed y teulu."

"Twt, twt, Marged fach, pwy werth yw'r gwaed heb arian?"

"Does dim llawer o ddylanwad gan arian yn Llan Wyre heb waed."

"Shwt ych chi'n gweyd peth felna?"

"Fel hyn yn gwmws. Meddyliwch amdano ni, nawr. Ma da ni ddigon o arian, ond, wedyn, — 'Jac yr Ellen Ann' ych chi, a — 'Marged Smwddo' odw inne i'r bobol ma."

"Ond, Marged annwl, crachod sy'n gweyd hyny."

"Y trueni yw fod cymint o grachod yn y byd te, weda i."

Wele'r "Hafan" yn y golwg, a Mrs. Lloyd wrth eu sodlau. Ochneidiodd Mrs. Morgan a sibrydodd yn ddistaw, — "Mi rown i hanner y nghyfoeth er mwyn cael gwaed honna i guro'n hapus yn y ngwythiennau i."

* * *

Eisteddodd Nansi drwy'r prynhawn o flaen ei thân o gwlwm du bach. Siriolai hwnnw ei hysbryd wrth daenu gwenau dros y grat taclus. Gan amlaf bu hi'n pendwmpian yn y gwres. Brydiau eraill ceisiai ganu i ymlid ymaith fysedd cwsg. Golwg lanwedd oedd ar bopeth o'i chylch. Disgleiriai'r llawr pridd benbwygilydd nes ymgolli yn ffiniau'r bordor gwyngalchog. Golchwyd y cerrig cobl ar yr aelwyd yn ddiweddar. Agorai'r simdde wen ei dafn o led y pen i ddangos awyr las. Disgynnai cadwyn o'r uchelion i gynnal cân y tegell uwch y tân. Dan y fantell, i'r chwith, ceid ffwrn fechan yn y wal; i'r dde yr oedd sgiw gysurus a bord wrth ei hymyl. Ar yr ochr arall y gorffwysai Nansi yn ei chadair freichiau. O bobtu i'r pentan gorweddai dwy garreg cyn laned a'r carlwm. Gyferbyn a'r ffenestr ymledai seld dderi yn llawn llestri o batrwm helyg. Ar ganol ei silff ceid Beibl Peter Williams dan orchudd cannaid. Gyfochr a'r seld yr oedd coffor a gadwai fwyd yr hên wraig. Yn y gongl ar y chwith, ac yn ymestyn at y ffenestr safai'r gwely hen ffasiwn. Drosto i gyd disgynnai llenni o batrwm blodeuog i'w guddio'n llwyr. Yma a thraw yr oedd cadeiriau deri yn gwasgar aroglau'r cwyr gwenyn ar draws yr ystafell. Ar y muriau crogai dau ddarlun yn amlwg i anrhydeddu 'r diwygiwr o Langeitho a'r pêr-ganiedydd o Bantycelyn. Wrth godi golwg gellid gweld y tô gwellt i gyd yn amlwg.

Ie, bwthyn twt a chysurus oedd gan Nansi Dafis. Gwisgai hithau mor deidi ag y medrai ei phensiwn ganiatau. Torrodd hi'r distawrwydd trwy ganu carol—

"Yn nhawel wlad Judea dlos,
Yr oedd bugeiliaid glân,
Yn aros yn y maes liw nôs,
I wylio'u defaid mân,—"

Ar y pryd, dyna gnoc wrth y drws, a swn troed yn cerdded i mewn. I syndod Nansi safodd Mrs. Lloyd, Llwyn Iarll ar ganol y llawr.

"Nadolig llawen i chi," oedd ei chyfarchiad.

"Felly i chithe, mam," meddai Nansi, gan godi a chynnyg ei chadair iddi.

"Diolch, mi eisteddaf am eiliad, cyn mynd nol i ginio. A sut ddiwrnod gawsoch chi heddi?"

"Ardderchog, mam, wir. Yr own i yn y bylgain am wyth o'r gloch y bore. Ches i erioed ddim byd gwell na'r naws odd no. Ma'r Beibil yn gweyd, mam, fod yr angylion wedi dod i Fethlem ar y Nadolig cynta ny. Cyn wyred a ny, mi fuon gyda ninne yn y capel bach heddi. Trueni wir, mam, na fusech chi no."

"Ie,—onte fe?" meddai Mrs. Lloyd. "Mi ddo i gyda chi'r Nadolig nesa."

"Ond, pwy fydd byw pryd ny, gwedwch? Falle bydda i miwn gwell lle."

"Falle, wir," meddai hithau'n ystyriol. "A beth fuoch chi'n neud wedyn?"

"Ar ol y cwrdd mi ges frecwast. Wedyn, bant a fi i dwtian tipyn amboiti'r tŷ cyn mynd i ginio drws nesa."

"A mi githoch amser wrth ych bodd?"

"Ddala i do fe, mam!"

"Ma'n dda gen i glywed, Nansi."

Ar hyn cododd Mrs. Lloyd, a chan estyn papur punt dywedodd - "Dydd da." Moesymgrymodd yr hen wraig ei gwrogaeth gan ychwanegu—"Thenci fowr, mam."

Wedi cefnu ar y bwthyn, atlonyddwyd cryn lawer ar ysbryd Mrs. Lloyd. Bob cam ar y ffordd tua'r plas bu hi'n dyfalu yng nghylch llawer o bethau. Wrth gerdded drwy'r pare sibrydodd yn ddwys—"Beth yw'r pleser na sy gyda Nansi? Mi garwn fod mor hapus a hi."

J. Seymour Rees.

Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.

(Gan ei ŵyr, Evan Lewis, Aberystwyth.)

Y MAE "Cilgwyn" yn enw sydd bron yn gysegredig fel llawer o fannau eraill gyda'r Cymru, ac yn enwedig felly gyda phobl Sir Aberteifi, o achos ei gysylltiad a Philip Pugh ac eraill a'r uchod yw un os nad y mwyaf enwog a galluog o honynt i gyd.

Gerllaw Llangybi mae Cilgwyn, ychydig filltiroedd o Lanbedr.

Yn y "Welsh Gazette" am 14 o Ragfyr, 1903, fe ymddangosodd erthygl ddiddorol ar Gilgwyn gan Philip Sydney (Mr. George Eyre Evans) gyda amryw gyfeiriadau at Evan Lewis.

Yn y "South Wales Daily News" am Tachwedd, 1922, ymddangosodd erthygl ddiddorol arall gan Mr. D. Ernest Davies, M.A. ar "Cilgwyn," ond ni soniodd air parthed Evan Lewis yr hwn a fu'n weinidog Cilgwyn o 1820 i 1864, cytnod o bedair blynedd a deugain—yn hwy na'r un gweinidog arall cyn neu ar ol hynny.

Rwy'n siwr y byddai Mr. Evans a Mr. Davies a llawer eraill yn falch os y rhoddaf wybodaeth pellach gyda manylion llawnach ynghylch y pregethwr, bardd, awdur a'r ysgolfeistr talentog hwn. Brodor oedd o Riwspardyn ym mhlwyf Dolgellau, Sir Feirionydd, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1788, ac yr oedd yn fab i'r Crynwr, bardd Cymreig a'r pregethwr adnabyddus Lewis Edwart neu Lewis Edwards "y Graig" yn yr un plwyf, yr hwn oedd nid yn unig yn aelod ffyddlon gyda'r Crynwyr ond yn bregethwr neu "gynghorwr" gyda hwynt. Ymddengys mai efe oedd y person olaf i ddal y fath swydd flaenllaw ac amlwg ymhlith y Crynwyr Cymreig, ac efe hefyd oedd y diweddaf o'r pregethwyr Crynyddol oedd ganddynt yn Sir Feirionnydd. Priododd Elizabeth ei ferch Dafydd Robert o Bentreglas, Brithdir ger Dolgellau, ac 'roedd yn chwaer i Evan Lewis, Cilgwyn. Claddwyd y gwr, y wraig a'r ferch yn Nhabor, hen fynwent y Crynwyr, yn agos i fferm Tyddyn-y-garreg, ychydig bellter o Riwspardyn ar y briffordd sy'n arwain i Ddolgellau lle y mae llawer o hynafiaid Lewis Edwards wedi eu claddu hefyd. Y mae englyn wedi ei gyfansoddi gan Lewis Edwart i'w ferch Elizabeth, ac wedi ei gerfio ar ei charreg bedd fel y canlyn :

Mae marw'n galw gwelwch,—a didwyll
Dywedaf ystyriwch ;
Cyn cysgu yn lletŷ'r llwch
Heddyw â Duw gwna heddwch.

Fe'm hysbysir fod yr englyn hwn i'w weld ar ugeiniau os nad cannoedd o gerrig beddau trwy Gymru. Adeiladydd ydoedd Lewis Edwart wrth ei grefft, ac un diwrnod tra'n trwsio tô tŷ yn Hengae yng nghymydogaeth Aberllefenny ym mhlwyf Talyllyn, torrodd yr ysgol, ar ba un y safai, odditano tra y cludai garreg, a bu farw mewn canlyniad i'r ddamwain dri diwrnod ar ol hynny. Gan ei fod yn gwaethygu cymerwyd ef i Hafod-y-meirch lle y bu farw tua'r flwyddyn 1815, ac fe'i claddwyd fel yr hysbyswyd o'r blaen yng nghladdfa'r Crynwyr ger Tyddyn-y-garreg, y fferm ddywedwyd amdani yn flaenorol. Yr oedd ganddo ddau o blant—y dywededig Evan Lewis ac Elizabeth yr hon oedd yn fam i'r diweddar Lewis Roberts o fferm Trefilia ger Dolgellau ac hefyd i Robert Dafydd neu "Apostol y Plant" fel ei gelwid, o fferm Cribyn, Bontddu, Penmaenpool, Abermaw. Yr oedd y diweddar Barch. Lewis Jones o'r Bala yn wyr i Lewis Edwart, a'r diweddar Barch. Hugh Pugh o Ddyffryn Ardudwy ger Abermaw oedd ei ornai, ac 'roedd y ddau ohonynt yn bregethwyr adnabyddus iawn gyda'r Methodistiaid Calfinaidd Cymreig.

Evan Lewis, Cilgwyn oedd unig fab yr hen bregethwr Crynyddol hwn. Hysbysir ei fod wedi treulio rhai blynyddoedd fel myfyriwr

yng Ngholeg Presbyteraidd, Caerfyrddin a daeth ar ddiwedd y term neu tua'r adeg honno yn 1807 a sefydlodd yn Aberystwyth. Un ar hugain oed oedd ar y pryd. Yn fuan ar ol hynny cawn ef yn bregethwr lleol gyda'r Eglwys Rydd Wesleyaidd neu fel ei gelwid ef gan rai yn "Capel Wesley Bach." Dyma'r adeg y cymerodd yr ymraniad le yn eu plith. Ond beth achosodd hynny nid wyf yn gwybod. Mae'n ddigon amlwg nas gallasai Evan Lewis pe bae ef yn "Wesley Mawr" dderbyn galwad i Gilgwyn am nas gallasai fod yno ond tair blynedd os mai "Wesley Mawr" oedd gan ei fod wedi bod yn weinidog am dros ddeugain a phedair o flynyddoedd. Mae yn eglur felly mai gyda'r "Wesley Bach" yr oedd ef o'r dechreuad.

Gwnaeth ysgrifennydd yr erthygl yn y "Welsh Gazette" gamgymeriad pan y dywedodd nad oedd Evan Lewis yn Wesleyad. ond cadarnha yn glir yn ei lyfr "Hanes y Cilgwyn" ei fod yn bregethwr lleol gyda'r Wesleyaid neu "Eglwys Rydd Wesleyaidd" a dyna fu hyd ei farwolaeth

Mae rhai yn credu mai "Undodwr" oedd Evan Lewis, ond camgymeriad yw hyn.

Tua ugain mlynedd yn ol galwodd yr ysgrifennydd ar y diweddar Barch. R. J. Jones, M.A., y gweinidog Undodaidd adnabyddus yn ei breswylfod ger "Hen Dŷ Cwrdd," Aberdâr, a chafodd dderbyniad serchog ac ysgwrs hir ag ef, a gofynnais iddo os yr oedd Evan Lewis o Gilgwyn yn Undodwr ac os y bu yn fyfyriwr yng Ngholeg Presbyteraidd, Caerfyrddin, ac atebodd nad oedd yn Undodwr o gwbl ac nid oedd ei enw yn yr "United Students, 1796—1901.—R.J.J." Llyfr oedd hwn wedi ei gasglu gan Mr. Jones ei hun o bob myfyriwr aeth i'r coleg hwn o'r dechreuad. Nid oes tystiolaeth beth bynag fod Evan Lewis wedi bod yn fyfyriwr o gwbl yn y coleg hwn, oherwydd fod yr Evan Lewis y sonir amdano yn y llyfr yn frodor o Gilian Aeron, Sir Aberteifi, ac yr oedd yn y coleg yn 1818, gan fod Evan Lewis, Cilgwyn yr amser hynny yn byw yn Aberystwyth, yn pregethu ac yn cadw ysgol ddydd yn Heol y Porth Du Bach (Little Darkgate Street). Ond fe goda'r cwestiwn yn naturiol, a allasai efe fod yn y coleg a'i enw wedi ei adael allan yn ddamweiniol gan Mr. Jones yn ei lyfr. Y mae hyn yn ddichonadwy ond nid yn debygol. Diameu fod Evan Lewis yn ysgolhaig da, ac os na addysgwyd ef yng Ngholeg Presbyteraidd, Caerfyrddin, ymha le y cafodd ei addysg? Nid wyf yn gwybod ymha le y cafodd ei addysg. Rhaid bod ei dad Lewis Edwart y Crynwr wedi rhoddi iddo'r addysg oreu fedrai fforddio. Beth gymhellodd Evan Lewis i adael ei gartref yn Rhiwspardyn ger Dolgellau a dyfod i Aberystwyth i fyw nis gallaf ddweud, ond mae'n glir na ddaeth o Goleg Presbyteraidd, Caerfyrddin. Mae'n ddichonadwy iddo ddechreu pregethu tra yn ei hen gartref.

Y mae gennyf o fy mlaen "Y Beibl Sanctaidd Dr. Coke, Llyfr I," yn Gymraeg, yr hwn a roddodd yr hen bregethwr Crynyddol Lewis Edwart i'w fab Evan Lewis ar adael ei gartref am Aberystwyth a tu mewn iddo yr ysgrifennodd yn Gymraeg a ganlyn :—

"Evan Lewis gwedi ei dderbyn Bob yn Rhan o law ei dad megis rhodd ag o'r awr hon iw yn guwilydd ganddo i arddel ef yn Berchenogaeth iddo ef ai Blant ar ei ol. V.N.B.—sef y Bibl hwn (y gyfrol gyntaf) a dderbyniodd yn y flwyddyn 1808."

Yn nhy Lewis Pugh, 4, Princess Street neu Rosemary Lane fel y gelwid hi y pryd hynny y dechreuodd "Wesley Bach" gadw gwasanaeth a phregethu gyntaf yn Aberystwyth pan ymneilltuodd yr enwad hwnw oddiwrth y "Wesley Mawr." Yr oedd hyn yn amser y rhwyg tua 1840. Hen gymeriad o'r enw "Jackie Charlo" tad Hamilton Lewis oedd yn byw yn y tŷ ar y pryd. Hên gerddor dan gamp oedd Jackie, o gryn enwogrwydd lleol ac un fedrai gopio nodau cerddoriaeth yn dra chelfydd a thlws. Yno y dechreuodd yr Eglwys Rydd—"The United Methodist Free Church" dan arweinyddiaeth eu prif flaenor Stephen Parry gwr yn hannu o deulu Llidiarde. Cyn bo hir rhanwyd yr anrhydedd o gadw'r eglwys yn y tŷ rhwng rhai eraill a chlywais y gellid ar un adeg glywed y Town Crier yn yr ystryd yn cyhoeddi y cynhelid gwasanaeth yn nhŷ William Jones. Preswyliai'r gwr hwn yn y Lôn tu ol y "Nag's Head" yn High Street. Wedi hyn symudasant i Lewis Terrace neu Alexandra Road ac yno mae'r hên gapel yn aros hyd heddiw ond Byddin yr Iechydwriaeth sydd yno yn bresenol.

(*I'w barhau.*)

Priodasau.

TACHWEDD 30, yng Nghapelygroes, gan y Parch. D. Evans, a cher bron y Cofrestrydd, Mr. D. Evans, Llanybyther, Mr. Tom Arthur Kent, Unity Cottage, Capelygroes, a Miss Jane Jones, Araul.

RHAGFYR 21, yng Nghapel Soar, Llanbedr, gan y Parchn. Eirug Davies, B.A., B.D., a David Evans (Capel-y-groes), ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, Mr. E. D. Rees, Llanbedr, Mr. John Daniel Thomas, Talgrwnmawr, a Miss Mary Thomas, Velindre House, Llanbedr. Pob hawddfyd a dedwyddwch a fo'n rhan i'r ddeubar ieuainc.

RHAGFYR 26, yng Nghapel Gallt-yplaca, o flaen y Cofrestrydd unwyd gan y Parchn. T. O. Williams, M.A. a S. Evans Bowen ddau o Alltyplaca —Evan Howel Jones (Hafodwen Mill) a Gwennie Anne Price, merch Mr. a Mrs. John Griffiths Price, Teifi View, Alltyplaca. Hir oes o iechyd a chysur a fo iddynt.

Marwgofion.

CAFODD yr Hen Dŷ Cwrdd ergyd eto. Y tro hwn pruddaidd yw'r gwaith o gofnodi hanes marwolaeth ein diacon henaf, Mr. John Evans, 34, Ynysllwyd Street, Aberdâr, yn 78 oed. Bu farw dydd Mawrth, Tachwedd 12fed. Brodor ydoedd o Lanybyther, ond bu'n byw yn Aberdâr dros 42 o flynyddoedd, yn gweithio gyda'r diweddar John Morgan, Builder. Gweithiwr gonest, tawel a diymhongar ydoedd, a pharch diffuant ganddo tuag at yr Hen Gapel. Ni fu neb yn ffyddlonach nag ef tra parhaodd ei iechyd. Bu yn ddiacon am flynyddoedd a'i lawenydd pennaf ydoedd clywed am lwyddiant yr achos. Bu yn dihoeni am rai misoedd ac er ei fethiant i ddod i'r gwasanaeth yr oedd ei ddiddordeb yn fyw oherwydd ei waith cyntaf fyddai holi sut oedd pethau yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Fe ddangoswyd y gofal tyneraf ohono gan ei blant ac er eu bod i gyd yn briod a chartrefi ganddynt eu hunain, eto, estynner iddynt ein cydymdeimlad llwyraf yn eu hiraeth a'u colled ar ol tad tyner a charedig. Claddwyd dydd Sadwrn, Tachwedd 16eg yn y fynwent gyhoeddus. Nos Sul, Tachwedd 24, cynhaliwyd gwasanaeth coffa. Gwelwyd arwyddion o barch i'w goffawdwriaeth ar bob llaw a chwareuwyd y "Dead March" yn effeithiol iawn gan Mr. D. R. Davies. Gwasanaethwyd yn yr angladd a'r gwasanaeth gan y Parch. E. R. Dennis.

DYDD Mawrth, Tachwedd 19, yn saith oed, Eirwen, geneth annwyl William Samuel a Gwenllian Jones, Lloyd Street, Trebanos. Mae yna lawer o amser wedi pasio oddiar y cofnodasom farwolaeth plentyn o gynulleidfa'r Graig a Gellionen o'r blaen. Anodd credu fod Eirwen wedi ei chymeryd o'i chartref. Yr ydoedd hi yn un o'r plant bywioca a brwd yn yr ardal. Chwi allech adnabod Eirwen bob amser wrth ei hosgo. Gwelsom hi yn cerdded weithiau,—ond rhedeg a neidio'n amlwg oedd hi fynychaf, fel y ffrwd a dyrr ewyn wrth ddisgyn tros y graig serth a daneddog. A doedd hi byth yn 'llonydd ond mewn hun cwsg ac afiechyd. Gwelir eisiau plentyn felly Dychmygwn ei gweled yn ymbrancio o'n cwmpas o hyd. Os marw wnaeth mae'r hud o hyd ar ol, a bydd ei chofio'n haws. Bydd ei lle'n wâg yn y gynulleidfa a'r Ysgol Sul, canys yr oedd yn amlwg yn y mannau hynny, fel yr hoffid hi'n fawr gan bawb. Tua blwyddyn yn ol y bu farw un o'i chyfeillesau mwyaf mynwesol, sef Eiri John, merch fach y Parch. D. Johns a'i briod, Trebanos. Ac yr oedd yna lawer o debygrwydd rhyngddynt mewn llawer o agweddau a thasg oedd eu gwahanu, fel tae yna ryw reidrwydd iddynt fod yn yr unfan gyda'i gilydd. Byddant mwyach efo'i gilydd, yn cyd-chwarae a chyd-neidio ar y dolydd yn y nef. Claddwyd y Sadwrn dilynol yn yr un fynwent ag Eiri fach, sef yng Nghladdfa Gyhoeddus Coedgwilym, Trebanos. Gwasanaethwyd yn y tŷ annedd gan y dywededig Mr. Johns, a chaled ydoedd gwneud hyn, â'r ddwy eneth fach ger ei fron, un yn ei harch, a'r llall yn ei choffa: ac ar lan y bedd gan y Parch. D. G. Rees, yn doddedig iawn. Cydymdeimla'r ardal oll a'r tad a'r fam wedi colli eu hunig blentyn,—eu gobaith a'u cysur, a'u popeth yn y byd hwn. Ond gwyddom y boddlonant i'r drefn, ac y cânt eto nerth i obeithio yn Nuw yn gryfach nag erioed.

Ysywaeth, ym mlaen yn saith
mlwydd,—Eirwen
Yrrwyd o'i phoblogrwydd;
I neithior Ior aeth yn rhwydd
Yn oedran diniweidrwydd.

Troai i fyn'd at Eiri fach,—ac yno
Canant yn bereiddiach;
Yn swyn nef, eu seiniau iach
A glywir o'r tud gloywach.

BANOS.

DYDD Mercher, Rhagfyr 18 yn 79 mlwydd oed bu farw hen gymeriad ffein yn James Davies, Cilwenauuchaf, Llansawel. Yr oedd wedi gweld dyddiau maith ac wedi mwynhau iechyd gweddol bron i'r diwedd. Yr oedd yn un o'r hen dype—wedi gweld tipyn o'r byd ac yn setlo i lawr yn y diwedd fel amaethwr cyfrifol. Yr oedd ei lond o hiwmor iach ac nid oedd aelwyd mwy cysurus na neb parotach nag ef am stori ddiniwed. Beth bynnag arall a fedrid ei ddweyd yr oedd ei fywyd yn dystiolaeth i'r gorchymyn "Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymydog." Ni soniai ef am dro gwael ym mywyd neb ac ni wrandawai ar air angharedig am neb. Y mae cymeriadau felly yn brin. Er na pherthynai ef i'n henwad bach ni, ymhyfrydai yn y Gymanfa Ganu a'r YMOFYNNYDD. Y mae'i weddw yn hannu o hen deulu'r Banc ac yn caru hen gapel bach Cwmwrdu. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent Capel Bethel, Llansawel. Gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Jones, Pembre (ei hen weinidog); T. Ehedydd Jones, Pumpsaint a Nicholas, gynt o Lansawel. Gadawodd weddw a phump o blant i alaru o golli tad caredig, priod ffyddlon a chymydog cymwynasgar a difyr.

Nodion yr Eglwysi.

CYMANFA GANU CEREDIGION.—Cynhelir Rehearsal Sul, Ionor y 12fed, yn y prynhawn am 1.30 o'r gloch yng Nghapelygroes; ac am chwech o'r gloch yn Llwynrhydowen. Hyderwn y daw y cantorion yn gryno am fod y rehearsal yn un bwysig.

YR YSGRIFENNYDD.

LLWYDDIANT.—Llongyfarchiadau lawer a chalonog iawn i Mr. Daniel Ceiriog Jenkins, mab Mr. a Mrs. Jenkins, Glasgoed, Felinfach ar ennill ohono y radd o M.Sc. o Brif Ysgol, Llundain, ac hefyd y radd o A.I.C. Mae gyrfa golegawl Mr. Jenkins wedi bod yn un hynod lwyddianus a llewyrchus o'r dechrau hyd yn awr. Wedi gorffen ei waith yn y Coleg bu am dymor yn Assistant Analyst yn Admiralty'r Llywodraeth yn Portsmouth, ac yn ddiweddar aeth oddi yno i Wolverhampton yn Assistant Analyst mewn "Food and Drugs" i Wolverhampton Borough Analyst. Cawn ar ddeall ei fod yn paratoi ac ar y ffordd i ennill y radd o F.I.C.

Hefyd yr un llongyfarchiadau i Mr. Jenkin Griffith Jones, mab ieuengaf Mr. Evan Jones a'r diweddar Mrs. Anne Jones, Aldergate, Felinfach. Wedi treulio rhyw bedair blynedd yng Nghaerfyrddin a blwyddyn yn y Coleg llwyddodd i ennill y radd o M.P.S. Yntau erbyn heddiw wedi gadael ei fro am y brif ddinas, ac yng ngwasanaeth y Boots Cash Chemists, ac yn gwneud yn arderchog.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Nos Iau, Hydref 31ain, yn y Graig, a than arweiniad y gweinidog, mwynhawyd un o'r cyngerddau goreu y cawsom y fraint o fod ynddi erioed. Cafwyd adroddiadau ac unawdau lleisiol; a darnau gan y Band. Yr oedd pob *item* o'r rhaglen o'r fath oreu. A rhoddodd y Band hwn chwareuad penigamp o ddarnau o waith y prif awduron mewn modd mwyaf meistrolgar, nes i'r dyrfa fawr gael ei gwefreiddio'n gyfangwbl. Bellach, y mae'r Band hwn, sef Band y *Mond*, Clydach-ar-Dawe, yn adnabyddus ym mhob cwrr o'r wlad am ei haelionusrwydd i roddi ei wasanaeth yn rhydd a rhad at unrhyw achos teilwng a ddichon ddod tan ei sylw; a dios, y mae clod ac anrhydedd yn ddyledus iddo am ei barodrwydd i'r cyfeiriad a nodwyd. Arweiniwyd y Band gan Marles Williams, Glandolau, Trebanos; a chyfeiliwyd gan Mr. Llewellyn Davies Clydach-ar-Dawe.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED).

JEWELLER, SILVERSMITH & OPTICIAN,

1, WIND STREET, LLANDYSSUL.

WHAT BETTER PRESENT
CAN YOU GIVE THAN A

GRAMOPHONE?

A GIFT THAT WILL GIVE PLEASURE AND ENJOYMENT THROUGHOUT THE YEAR.

AGENT FOR "HIS MASTER'S VOICE" AND ALL LEADING MAKES OF GRAMOPHONES AND RECORDS.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR WINTER GARMENTS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.